

Clerc: Lis Puw: 01678 540654                      07896964120                      lis\_puw@hotmail.co.uk Bedw  
Gwynion, Llanuwchllyn, Gwynedd LL23 7TW

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Ebrill 14, 2014 Presennol: Dewi Jones (Cadeirydd), Alwyn Roberts (is gadeirydd), Alan Jones Evans, Cyngorydd Gwynedd, Beryl Hughes Griffiths, Arwel Lloyd Jones, Heledd Jones, Karl Jones, Catrin Roberts, Huw P Roberts, Ian Trow, Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

1420 Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i bawb, gan roi croeso arbennig i Mr W D Williams yn cynrychioli Cyngor Cymuned Llangywer ac i Mr Julian Birley o Rheilffordd Llyn Tegid. Mynegodd y Cadeirydd gydymdeimlad y Cyngorwyr gydag Arwel Lloyd Jones ar ôl iddo golli ei chwaer, Phyllis Jones. Derbyniwyd ymddiheuriad Huw Antur.

1421 Cafwyd cyflwyniad gan Mr Julian Birley ar gynlluniau arfaethedig yn ymwneud a Rheilffordd Llyn Tegid. Soniodd am botensial i wneud cyfraniad sylweddol gwerth £1.6 miliwn y flwyddyn at yr economi leol o ddatblygu'r rheilffordd at Heol Aran. Rhagwelai creu 11 o swyddi ychwanegol. Y bwriad yw cychwyn a gorffen y daith bob awr yn Y Bala, ond i ddatblygu'r cyfleusterau peirianyddol yn Llanuwchllyn. Roedd yn rhagweld cysylltiadau gyda thrafnidiaeth gyhoeddus a Rheilffordd Llangollen. Byddai'n bosib gwneud darpariaeth ar gyfer cario beiciau ar y trê. Atebodd nifer o gwestiynau gan y Cyngorwyr a mynegodd parch ac edmygedd o iaith a diwylliant ein gwlad. Cyfeiriodd at wefannau dwyieithog y Cwmni ac fe'i anogwyd i roi lle blaenllaw i ymwelwyr cael blas ar Gymreictod. Diolchwyd yn gynnes i Mr Birley a chytunwyd i ysgrifennu llythyr yn rhoi cefnogaeth i'r fenter.

1422 Nid oedd cyflwyniadau eraill gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

1423 Derbyniwyd datganiadau buddiant ym mater cynllunio Cais NP5/71/451 gan Huw P Roberts ac Alwyn Roberts.

1424 Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 3/3/15.

1425 Nid oedd materion yn codi o'r Cofnodion nad oedd eisoes ar yr Agenda.

1426 Gohiriwyd Adroddiad y Cyngorydd Sir tan y cyfarfod nesaf oherwydd prinder amser.

1427 Materion Eiddo'r Cyngor

i. Adroddwyd fod wal Nyrs y Fynwent wedi ei thrwsio heb gost i'r Cyngor Cymuned.

ii. Derbyniwyd gwybodaeth fod y teulu yn cynnig ail-leoli'r Groes Wen bren a osodwyd ganddynt yn y fynwent newydd er mwyn cyd-ymffurfio a pholisi'r Cyngor parthed cofebion ychwanegol. Derbyniwyd y cynnig gyda diolch.

iii. Cytunwyd i'r is-bwyllgor gyfarfod i drafod enwau ar gyfer rhestr o dorwyr beddau cydnabyddedig ac i gytuno ar restr ffioedd claddu a chynnal.

Clerc: Lis Puw: 01678 540654                      07896964120                      lis\_puw@hotmail.co.uk Bedw  
Gwynion, Llanuwchllyn, Gwynedd LL23 7TW

iv. Cut yr hers: derbyniwyd copi o'r gweithredoedd; ar ôl ystyried tri phrasiad proffesiynol, cytunwyd ar bris i'w ofyn i'r tenantiaid presennol.

v. Nodwyd y gellid arddangos y baneri croeso a brynwyd llynedd pan fydd achlysur arbennig yn y pentref.

1428 Materion ariannol

i. Diolchwyd i'r Swyddog Ariannol am baratoi mantolen am y flwyddyn yn ogystal â mantolen y Fynwent. Cytunwyd i gyfrannu at elw'r Noson Goffi fel bod y cyfanswm yn £500 i'w rannu rhwng elusennau Alzheimers a Tenovus.

ii. Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis. Diolchwyd i'r Swyddog Ariannol am lunio llythyr manwl i British Gas am drydan y Toiledau, a chytunwyd i gynnwys sic am yr hyn y tybir gan y Cyngor sy'n ddyledus i'r cwmni.

iii. Derbyniwyd gwybodaeth am archwiliad blynyddol o'r cyfrifon.

iv. Cadarnhawyd yr ystyriaeth flynyddol i gyflogau (gw. penderfyniad 6/1/15, Cofnod 1391)

v. Derbyniwyd mantolen y Sioe Amaethyddol fel rhan o'r broses gwneud cyfraniad ariannol a chytunwyd i wneud y cyfraniad a glustnodwyd.

1429 Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned - dim

1430 Partneriaeth Penllyn: derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr a gwybodaeth am Benllyn Fywiog. Adroddwyd am y cyfarfod gyda Dyfed Edwards yn amlinellu goblygiadau'r Papur Gwyn ar ail-drefnu Llywodraeth Leol. Cytunwyd i ofyn i Dyfed Edwards am fwy o wybodaeth ar gymryd rhan mewn Cynllun Peilot ar gyfer Penllyn gan fod y Cyngor yn credu ei bod yn bwysig fod yn rhan o'r ddeialog o'r cychwyn ar ddyfodol llywodraeth leol ein hardal.

1431 Gohebiaeth:

Parc Cenedlaethol Eryri:

Cymeradwywyd Cais NP5/71/451 i osod sustem garthffos a thanc biodisc a chodi ffens bren ym Maes Carafanau Bryn Gwyn. Nid oedd Alwyn Roberts a Huw P Roberts yn bresennol yn ystod y drafodaeth.

Derbyniad gwybodaeth am ganiatâd wedi ei roi i geisiadau: NP5/71/119D – mast wrth Drws y Nant Adeiladu strwythur cwrs rhaffau, Gwersyll yr Urdd, Glan-llyn NP5/71/L149 – adeiladau fferm, Fferm

Glyn Llyn; hefyd i drosi adeiladau fferm yn dŷ annedd NP5/71/432 – adeiladu tŷ fforddiadwy ar gyfer angen lleol, tir i gefn Llwyn Onn

Gwynedd: Derbyniwyd rhaglen Neuadd Dwyfor.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Dewi Jones

Clerc: Lis Puw: 01678 540654                      07896964120                      lis\_puw@hotmail.co.uk Bedw  
Gwynion, Llanuwchllyn, Gwynedd LL23 7TW

Derbyniwyd gwybodaeth am y cyfle i ymateb i ymgynghoriad ar ddyfodol ysgolion dalgylch Ysgol Y Berwyn. Cytunwyd i'r Clerc i anfon neges o gefnogaeth y Cyngor i'r cynlluniau.

Un Llais Cymru:

Nodwyd y cais i gyflwyno cynigion ar fater cenedlaethol i gynhadledd Un Llais Cymru.

Cytunodd y Clerc i gynrychioli'r Cyngor mewn cyfarfod ym Metws y Coed 16/4/15 2.00-4.00 i drafod y Papur Gwyn ar ad-drefnu Llywodraeth Leol

Eraill: Cytunwyd gyda'r pwynt a godwyd yn llythyr Merched y Wawr parthed trefniadaeth y Noson Goffi; cytunwyd i drafod newid amseriad yr achlysur yn y dyfodol. Cyfarwyddwyd y Clerc i ysgrifennu at Sefydliad y Merched a Merched y Wawr i fynegi diolch y Cynghorwyr nid yn unig am baratoi'r bwyd blasus ond am y gorchwyl ychwanegol o baratoi'r Neuadd.

Derbyniwyd llythyrau o ddiolch am gyfraniadau ariannol oddi wrth: Teulu Gwalia, Llên y Llannau, Clwb Pêl droed Llanuwchllyn, Yr Adran Bentref, CFFI Meirionnydd, Ysgol y Berwyn, Theatr Bara Caws, Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn a'r Cylch

Nodwyd cais am gymorth ariannol oddi wrth Gŵyl Ddrama Corwen a'r Cylch

Dyddiad y Cyfarfod nesaf: 5/5/15

Amser gorffen: 9.30pm